



Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

Polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref

Diweddarwyd Ionawr 2018

Cyflwyniad

Mae Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf yn cydnabod yr hawl sydd gan bob plentyn i gael addysg. Mae e'n cydnabod fod Addysg Ddewisol yn y Cartref yn ddewis dilys.

Mae'r polisi yma'n rhoi gwybodaeth i rieni/cynhalwyr, plant, phobl ifainc a phob gweithiwr proffesiynol yn Rhondda Cynon Taf sydd efallai'n ymwneud â phlant â phobl ifainc yn rhan o'u gwaith. Mae'n egluro cyfrifoldebau'r rhieni/cynhalwyr hynny sy'n addysgu eu plentyn yn y cartref, yn ogystal â Rhondda Cynon Taf fel awdurdod lleol.

Ar ran Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf, bydd y Pennaeth Dysgu Amgen¹ a'i gynrychiolwyr yn ymdrechu i feithrin cyberthnasau gwaith da ac yn cyfathrebu â rhieni/cynhalwyr, plant, pobl ifainc a grwpiau addysg/cymorth sy'n ymwneud ag addysg yn y cartref mewn modd agored.

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen 'Addysg ddewisol yn y cartref - Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol' (Dogfen canllaw rhif: 202/2016)²

Hawliau a chyfrifoldebau rhieni

Mae Adran 7 o Ddeddf Addysg (1996)³ yn datgan:

'The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable —

(a) to his age, ability and aptitude, and

(b) to any special educational needs he may have,

either by regular attendance at school or otherwise.'

Mae cyfraith achosion⁴ yn disgrifio addysg effeithlon fel addysg sy'n cyflawni ei nod, a chaiff addysg addas ei hystyried yn addysg sy'n bennaf yn paratoi'r plentyn i fod yn rhan o'r gymuned mae'n perthyn iddi, yn hytrach na ffordd o fyw'r wlad yn ei chyfanrwydd. Mae hyn ar yr amod fod yr addysg ddim yn rhwystro dewisiadau'r plentyn o ran mabwysiadu ffordd o fyw arall yn y dyfodol.' Does dim diffiniad cyfreithiol o addysg llawn amser.

Does dim rheidrwydd cyfreithiol ar rieni/cynhalwyr i gofrestru eu plentyn/plant mewn ysgol ar ôl ei ben-blwydd/eu pen-blwydd yn 5 oed, ac mae modd iddyn nhw ddewis cynnig addysg yn y cartref. O dan yr amgylchiadau yma, does dim rhaid i rieni gofrestru neu ofyn caniatâd yr Awdurdod Lleol er mwyn addysgu eu plant yn y cartref. Serch hynny, mae modd i rieni/cynhalwyr benderfynu gwneud hynny.

Er mai rhieni/cynhalwyr sy'n gyfrifol am bob agwedd ariannol ar addysg yn y cartref, bydd Rhondda Cynon Taf yn ymdrechu i helpu rhieni, plant a phobl ifainc i gael gafael ar addysg effeithlon ac addas.

1. Pennaeth Dysgu Amgen, d/o Canolfan Addysg Tŷ Gwyn, Y Dolydd, Cwmdâr, Aberdâr, CF40 8EX

2. Addysg Ddewisol yn y Cartref - Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol (2017) (Dogfen canllaw rhif: 202/2016): <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/elective-home-education-guidance/?skip=1&lang=cy>

3. Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents>

4. Mr Ustus Woolf yn achos R v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth, ex parte Talmud Torah Machzkei Hadass School Trust (12 Ebrill 1985)

Tynnu enw plentyn oddi ar gofrestr dderbyn disgyblion ysgol

Er mwyn tynnu enw plentyn/person ifanc oddi ar gofrestr yr ysgol, rhaid i rieni/cynhalwyr roi rhybudd ysgrifenedig i Bennaeth ysgol y plentyn/person ifanc⁵. Mae modd gwneud hyn naill ai drwy llythyr neu drwy e-bost. Wedyn, rhaid i'r Pennaeth dynnu enw'r plentyn/person ifanc oddi ar gofrestr dderbyn disgyblion yr ysgol ar unwaith⁶ a rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol (gan ddefnyddio'r **Ffurflen Hysbysu Addysg Ddewisol yn y Cartref - Atodiad 1**) o fewn 10 diwrnod ysgol ar ôl gwneud hynny (rheoliad 12(3)). Pennaeth Dysgu Amgen a'i gynrychiolwyr yn ysgrifennu at y rhieni/cynhalwyr ar ran yr Awdurdod Lleol o fewn 10 diwrnod gwaith i'r hysbysiad gan hen ysgol y plentyn/person ifanc. Bydd yr ohebiaeth yma'n cydnabod y penderfyniad i ddarparu addysg yn y cartref. Os dydy'r rhieni/cynhalwyr ddim yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r ysgol, yna caiff enw'r plentyn/person ifanc ei gadw ar gofrestr derbyn disgyblion yr ysgol a chaiff nodyn o '**Absenoldeb heb Awdurdod' ei wneud**⁷. Wrth roi gwybod i'r ysgol eu bod nhw am dynnu enw'u plentyn oddi ar y gofrestr, rhaid i'r rhieni/cynhalwyr ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- (i) Enw'r plentyn
- (ii) Dyddiad geni'r plentyn
- (iii) Cyfeiriad y plentyn
- (iv) Y dyddiad pan gaiff ei enw ei dynnu oddi ar y gofrestr

Wrth anfon rhybudd ar ffurf llythyr, rydyn ni'n argymhell i'r sawl sy'n bwriadu darparu addysg yn y cartref gael derbynneb gan yr ysgol neu anfon y llythyr mewn modd sy'n eu galluogi nhw i'w olrhain.

Yn ogystal â hynny, efallai y bydd rhieni/cynhalwyr yn dewis darparu rhagor o wybodaeth ddefnyddiol yn eu rhybudd ysgrifenedig. Mae modd i hyn gynnwys eu rheswm dros benderfynu darparu addysg yn y cartref. Yn ogystal â hynny, efallai y bydd rhieni/cynhalwyr yn awyddus i roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am eu rhesymau dros ddarparu addysg yn y cartref. Mae modd gwneud hyn drwy'r Pennaeth Dysgu Amgen neu ei gynrychiolwyr.

Os yw plentyn/person ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i gofrestru gydag ysgol brif ffrwd, ond heb ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig, rhaid i'r rhieni/cynhalwyr roi rhybudd ysgrifenedig i Bennaeth ysgol y plentyn ar ffurf llythyr neu e-bost os ydyn nhw'n dymuno tynnu ei enw oddi ar y gofrestr. Wedyn, yn ôl yr amlinelliad uchod, rhaid i'r Pennaeth dynnu enw'r plentyn/person ifanc oddi ar gofrestr derbyn disgyblion yr ysgol ar unwaith a rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol (gan ddefnyddio'r **Ffurflen Hysbysu Addysg Ddewisol yn y Cartref - Atodiad 1**) o fewn 10 diwrnod ysgol ar ôl gwneud hynny.

Os bydd rhiant sydd wedi addysgu ei blentyn yn y cartref yn dymuno i'w blentyn ddychwelyd i'r ysgol yn Rhondda Cynon Taf, dylai gysylltu â'r Adran Derbyn Disgyblion i'r Ysgol⁸ neu'r ysgol, os mai hi yw'r awdurdod derbyn disgyblion.

5. Rheoliad 12(3) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010: <http://origin-www.legislation.gov.uk/wsi/2010/195/made>

6. (Rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010).

7. "Ystyr absenoldeb heb ei awdurdodi yw absenoldeb heb ei gymeradwyo gan un o gynrychiolwyr awdurdodedig yr ysgol, ac mae'n cynnwys pob absenoldeb heb esboniad... yn ffactor hollbwysig wrth i'r awdurdod lleol benderfynu a yw am erlyn rhieni..." (Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan: Arweinyfyr Gweithredol i'r Gwasanaeth Lles Addysg):<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?skip=1&lang=cy>

8. Gwasanaeth Derbyn Disgyblion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Tŷ Trevihick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ. E-bost: derbyndisgyblion@rhondda-cynon-taf.gov.uk Ffôn: 01443 744232

Cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol o ran Diwallu Anghenion Teuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref a'u Cefnogi

Dydy Awdurdodau Lleol ddim yn gyfrifol am ddarparu ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF a does dim dyletswydd statudol arnyn nhw i'w chefnogi. Serch hynny, o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau er mwyn nodi plant sydd ddim yn cael addysg addas. Mae'r ddyletswydd yma'n berthnasol ar gyfer plant sydd mewn oedran ysgol gorfodol, sydd ddim ar gofrestr ysgol ac sydd ddim yn cael addysg addas y tu hwnt i'r ysgol (e.e. gartref, yn breifat neu drwy ddarpariaeth arall).

Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

Rhaid i Awdurdod Lleol wneud trefniadau sy'n eu galluogi nhw (hyd eithaf eu gallu) i adnabod plant yn yr ardal sydd mewn oedran ysgol gorfodol ond sydd

- (a) ddim yn ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol, a
- (b) ddim yn derbyn addysg addas y tu hwnt i'r ysgol.

Ystyr 'addysg addas' mewn perthynas â phlentyn yw addysg llawn amser effeithlon sy'n addas ar gyfer ei oedran, ei allu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig posibl.

Fel sydd wedi'i nodi uchod, bydd y Pennaeth Dysgu Amgen a'i gynrychiolwyr yn ysgrifennu at y rhieni/cynhalwyr o fewn 10 diwrnod gwaith i'r hysbysiad gan hen ysgol y plentyn/person ifanc. Bydd yr ohebiaeth yma'n cydnabod y penderfyniad i ddarparu addysg yn y cartref. Bydd hyn yn ychwanegol i'r cyfnod o 10 diwrnod ysgol sydd gan y Pennaethiaid er mwyn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol. Bydd y llythyr yn gwahodd rhieni/cynhalwyr i gwrdd â chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol. Serch hynny, does dim rheidrwydd ar rieni/cynhalwyr i wneud hyn. Mae modd i'r sawl sy'n darparu addysg yn y cartref ofyn am wybodaeth benodol gan y gwasanaeth yn ôl yr angen. Bydd y Pennaeth Dysgu Amgen a/neu ei gynrychiolwr yn cynnig cyfarfod pellach ar ôl 8 wythnos i'r cynnig cyntaf. Eto, does dim rheidrwydd ar rieni/cynhalwyr i ddod i'r cyfarfod yma. Mae'r Pennaeth Dysgu Amgen a'i Swyddog Cyswllt yn cydnabod y bydd y sawl sy'n darparu addysg yn y cartref angen rhagor o amser i gynllunio'r hyn maen nhw am ei addysgu a'i roi ar waith.

Does dim canllawiau statudol ynglŷn â pha mor aml y mae angen cynnal y cyfarfodydd yma. Serch hynny, bydd y Pennaeth Dysgu Amgen neu ei Swyddog Cyswllt yn cynnig cwrdd â'r rhieni/cynhalwyr o leiaf unwaith y flwyddyn yn dilyn y cynnig am gyfarfod ar ôl 8 wythnos. Serch hynny, caiff pob achos ei ystyried yn unigol.

Y bwriad yw y bydd pob ymweliad yn canolbwyntio ar gynnig cymorth addysgol i'r plentyn/person ifanc a'r rhiant/cynhaliwr. Bydd y Pennaeth Dysgu Amgen a'i Swyddog Cyswllt yn cynnig llenwi ffurflen Addysg Ddewisol yn y Cartref ar y cyd â rhieni/cynhalwyr o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad y cyfarfod.

Os bydd y rhieni/cynhalwyr ddim yn awyddus i gael cyfarfod (cychwynnol neu ddilynol) wyneb yn wyneb, yna byddai'r Pennaeth Dysgu Amgen yn falch o dderbyn adroddiad ysgrifenedig neu enghraifft o waith sydd wedi'i gwblhau. Drwy ddewis rhannu enghreifftiau (a chynnal cyfarfodydd rheolaidd), mae'n bosibl y bydd modd i'r Pennaeth Dysgu Amgen neu ei gynrychiolwyr helpu'r sawl sy'n darparu addysg yn y cartref i ganfod cymorth ac adnoddau addas yn ôl yr angen.

Yn unol ag Adrannau 437 a 443 o Ddeddf Addysg 1996, lle mae rheswm gan yr Awdurdod Lleol dros gredu bod plentyn/person ifanc ddim yn cael addysg lawn amser sy'n effeithlon ac yn addas, bydd e'n ymchwilio i'r addysg a gaiff ei darparu.

Os yw hi'n ymddangos bod plentyn/person ifanc ddim yn cael addysg lawn amser effeithlon ac addas, bydd y Pennaeth Dysgu Amgen neu'i gynrychiolwr yn cynnig cymorth i'r sawl sy'n darparu addysg yn y cartref er mwyn darparu addysg briodol i'w plentyn/plant.

Efallai y bydd rhieni/cynhalwyr o'r farn fod creu athroniaeth/cynllun addysgol a chadw cofnod o waith a chyflawniadau eu plant yn ddefnyddiol. Fel y nodwyd uchod, byddai'r Pennaeth Dysgu Amgen yn falch o dderbyn adroddiad ysgrifenedig neu unrhyw enghraifft o waith y mae'r plentyn/person ifanc wedi'i gwblhau drwy Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Ar ôl gwneud ymholiadau (ffurfiol ac anffurfiol), mae modd i'r Awdurdod Lleol wneud Gorchymyn Mynychu'r Ysgol os yw'n teimlo bod y plentyn/person ifanc ddim yn cael addysg lawn amser effeithlon. Mae hyn yn caniatáu 15 diwrnod i'r rhieni/cynhalwyr ddarparu'r wybodaeth a geisir fel tystiolaeth bod eu plentyn yn derbyn addysg addas.

Adran 437 o Ddeddf Addysg 1996 - Gorchymynion Mynychu'r Ysgol

Os yw'r Awdurdod Lleol o'r farn fod plentyn sydd mewn oedran ysgol gorfodol yn eu hardal ddim yn cael addysg addas, naill ai drwy'r ysgol neu fel arall, bydd yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at y rhiant sy'n gofyn iddo gadarnhau bod y plentyn yn derbyn addysg o'r fath o fewn y cyfnod sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad.

Fydd y cyfnod ddim yn llai na 15 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod pan gaiff yr hysbysiad ei gyflwyno.

Os —

- (a) bydd rhiant sydd wedi derbyn hysbysiad o dan isadran (1) yn methu â bodloni'r Awdurdod Lleol fod y plentyn yn cael addysg addas o fewn y cyfnod sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad,
- (b) os bydd yr awdurdod o'r farn bod angen i'r plentyn fynd i'r ysgol, bydd yr awdurdod yn cyflwyno gorchymyn i'r rhiant ("Gorchymyn Mynychu'r Ysgol" yn ôl y Ddeddf yma) yn y modd mwyaf addas. Bydd y gorchymyn yma yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r plentyn gofrestru fel disgybl yn yr ysgol sydd wedi'i henwi yn y gorchymyn.

Bydd y Gorchymyn Mynychu'r Ysgol (yn amodol ar unrhyw welliannau gan yr Awdurdod Lleol) yn aros mewn grym drwy gydol yr amser pan fo'r plentyn mewn

oedran ysgol gorfodol, oni bai -

(a) fod yr awdurdod yn ei dynnu'n ôl, neu

(b) fod cyfarwyddyd yn cael ei wneud mewn perthynas ag ef o dan adran 443(2) neu 447(5).

Lle caiff ysgol a gynhelir ei henwi yn y Gorchymyn Mynychu'r Ysgol, bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethu a'r pennaeth.

Lle caiff ysgol a gynhelir ei henwi mewn Gorchymyn Mynychu'r Ysgol, bydd y corff llywodraethu (a'r Awdurdod Lleol yn achos ysgol a gynhelir) yn derbyn y plentyn i'r ysgol.

Dydy isadran (6) ddim yn effeithio ar unrhyw rym i wahardd disgybl o'r ysgol os yw'r disgybl wedi cofrestru yno eisoes.

Yn y Bennod yma, ystyr "ysgol a gynhelir" yw unrhyw ysgol gymuned, ysgol sylfaen neu ysgol wirfoddol, neu unrhyw ysgol gymuned neu ysgol sylfaen arbennig sydd ddim mewn ysbyty.

Hawliau plant

Mae gan blant hawl i gael addysg. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('UNCRC'), (1991)⁹, yn sicrhau ystod o fesurau diogelwch arbennig a chymorth i blant.

Ymyrraeth gynnar a datrys anghydfod

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cydnabod fod rhieni weithiau'n penderfynu addysgu yn y cartref yn dilyn anghydfod rhwng y teulu a'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff rhieni eu hannog i barhau i gydweithio gyda'r ysgol er mwyn trafod eu pryderon. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i helpu'r rhieni a'r ysgol i ddatrys y problemau. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys cyfeirio unigolion at sefydliadau/gwasanaethau partner eraill sydd â gallu gwell i gynnig gwybodaeth, cyngor a chanllawiau priodol fel bod modd i bawb wneud penderfyniadau hyddysg. Serch hynny, mae gan bob ysgol ac Awdurdod Lleol weithdrefn gwyno y mae modd ei dilyn os yw'r rhieni yn dal i deimlo'n bryderus.

Addysg hyblyg

Mae addysg hyblyg neu fynychu'r ysgol mewn modd hyblyg yn drefniant rhwng y rhiant a'r ysgol. O dan yr amgylchiadau yma, caiff y plentyn/person ifanc ei gofrestru yn yr ysgol yn y modd arferol, ond mae'n mynd i'r ysgol ar sail rhan amser. Yn gyffredinol, caiff y mesur yma ei ddefnyddio am gyfnod byr.

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylai'r ysgol wneud trefniant addysg hyblyg ai peidio. Wedyn, caiff y trefniadau o ran addysg hyblyg eu gwneud rhwng y rhiant a'r ysgol. Serch hynny, bydd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn

9. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('UNCRC'), (1991):<https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/>

ymdrechu i helpu'r ysgol a'r rhiant os yw addysg hyblyg yn ateb byrdymor neu dros dro addas ar gyfer y plentyn/person ifanc.

Archwiliadau Triwanta

Does dim angen cymryd unrhyw gamau pellach pan fo cofnod plentyn yn dangos ei fod yn cael ei addysgu yn y cartref, oni bai fod rheswm dros amau hyn. Rhaid gwneud rhieni sy'n addysgu yn y cartref yn effro i'r ffaith y bydd angen i weithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn archwiliadau triwanta ddilysu'r wybodaeth maen nhw'n ei chael o dan yr amgylchiadau yma, o bosibl. Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw rhestr o bob plentyn mewn oedran ysgol sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ac mae modd i staff eu gwirio wrth gynnal archwiliadau triwanta.

Gweithio gyda rhwydweithiau a grwpiau addysg yn y cartref

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymdrechu i feithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol gyda rhwydweithiau a grwpiau addysg yn y cartref ac yn cefnogi teuluoedd sy'n rhan o'r grŵp yma, o fewn eu hardaloedd a thu hwnt. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cydnabod pa mor werthfawr yw'r grwpiau yma i rieni a phlant. Maen nhw'n cynnig cymorth addysgol uniongyrchol yn ogystal â chyngor, arweiniad, ysbrydoliaeth a chyfleoedd i blant a phobl ifainc wneud ffrindiau gyda phlant a phobl ifainc eraill sy'n cael addysg yn y cartref.

Cefnogi plant a phobl ifainc

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru², bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn helpu plant a phobl ifainc sy'n cael addysg yn y cartref, yn ogystal â'u teuluoedd, i gael gafael ar wasanaethau cyffredinol. Caiff caniatâd y rhieni a/neu'r person ifanc (os yw'r person ifanc yn 16 oed neu'n hŷn) ei geisio cyn rhannu data personol y plentyn (h.y. enw, dyddiad geni a manylion cyswllt) â sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau ei fod yn cael y cymorth, y cyngor a'r gwasanaethau y mae ganddo'r hawl i'w cael.

Mae modd i rieni/cynhalwyr plant/pobl ifanc sy'n cael addysg yn y cartref ac sydd yn eu blwyddyn olaf gysylltu â'r Pennaeth Dysgu Amgen i gael cyngor ynglŷn ag arholiadau. Serch hynny, y rhieni/cynhalwyr fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r arholiadau uchod.

Nodweddion y ddarpariaeth addysg yn y cartref

Yn unol â dymuniad y teulu, bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymdrechu i ddatblygu amrywiaeth o dulliau gweithredu er mwyn diwallu anghenion addysgol y plentyn. Serch hynny, does dim rheidrwydd ar deuluoedd i weithio gyda'r Awdurdod Lleol na gweithio mewn modd penodol wrth roi addysg i'r plentyn. Does **dim** rhaid i rieni sy'n rhoi addysg yn y cartref wneud y canlynol:

- dysgu'r cwricwlwm cenedlaethol
- llunio amserlen
- cael safle sy'n bodloni safon benodol
- marcio'r gwaith mae eu plant yn ei wneud
- pennu oriau penodol ar gyfer darparu'r addysg
- meddu ar unrhyw gymwysterau penodol

- ymdrin â'r un maes llafur â'r ysgol
- cynllunio'n fanwl ymlaen llaw
- glynu at oriau, dyddiau na thymhorau ysgol
- rhoi gwersi ffurfiol
- ail-greu sefyllfaoedd cymdeithasol â chyfoedion fel sydd i'w cael yn yr ysgol
- cyfateb i unrhyw safonau penodol o ran oedran.


Mae gofyn i'r sawl sy'n darparu addysg yn y cartref sicrhau bod eu plentyn yn cael addysg effeithlon llawn amser o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed, tan ddydd Gwener olaf mis Mehefin y flwyddyn ysgol pan fo'r plentyn yn troi'n 16 oed.

Does dim rhaid i blant sy'n cael addysg yn y cartref ddilyn unrhyw gwricwlwm penodol na bodloni meini prawf ar gyfer nifer yr oriau dysgu. Mae modd i'r dull o ddarparu addysg amrywio o fod yn strwythur ffurfiol, yn seiliedig ar amserlen ac wedi'i leoli yn y cartref i addysg hunanlywodraethol, dan arweiniad y plentyn neu addysg heb strwythur (gweler Ffigur 1).

Mae modd addasu'r dull i gyd-fynd ag anghenion a diddordebau'r plentyn yn ogystal â'i hoff ffyrdd o ddysgu. Yn ogystal â hynny, mae modd i'r dull amrywio dros amser neu fesul pwnc. Er enghraifft, efallai y bydd plentyn yn dysgu mewn modd hunanlywodraethol pan mae'n blentyn bach ac wedyn mewn modd sy'n fwy strwythuredig ar gyfer ei arholiadau TGAU. Dros flwyddyn, efallai y bydd addysg yn y cartref yn fwy strwythuredig yn y gaeaf ac yn manteisio ar y tywydd neu gyfleoedd yn y gymuned leol yn ystod yr haf. Efallai y caiff rhai pynciau fel mathemateg eu haddysgu mewn dull strwythuredig, tra bod pynciau eraill, fel hanes, yn cael eu haddysgu drwy brosiect hunanlywodraethol.

Bydd y Pennaeth Dysgu Amgen yn rhoi cyngor ar yr addysg a gaiff ei ddarparu ac yn cydnabod fod yr arferion a'r safonau sy'n rhan o addysg yn yr ysgol ddim o reidrwydd yn berthnasol i addysg yn y cartref. Bydd unrhyw gyngor a gaiff ei ddarparu yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob achos.

Ffigur 1: Dulliau addysgu yn y cartref



Plant sydd â datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Fydd yr Awdurdod Lleol ddim yn rhoi'r gorau i gynnal datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) oni bai fod dim angen iddo ei gynnal ar gyfer plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Bydd hyn yn amodol ar allu'r rhieni i sicrhau darpariaeth addas ar gyfer anghenion addysgol arbennig y plentyn. Mae'n bosibl y bydd y ddarpariaeth yn wahanol i'r hyn sydd wedi'i nodi yn y datganiad. Mae angen i rieni ddarparu addysg sy'n addas i oedran a gallu'r plentyn, yn ogystal ag unrhyw anghenion addysgol arbennig posibl. Mae hyn wedi'i amlinellu yn adran 7 o Ddeddf Addysg 1996.

Os yw'r Awdurdod Lleol o'r farn fod trefniadau'r rhieni yn addas, mae'n bosibl y caiff yr Awdurdod Lleol ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth sydd wedi'i nodi yn y datganiad. Serch hynny, os dydy trefniadau'r rhieni ddim yn diwallu anghenion y plentyn, yna dyw'r rhieni ddim yn gwneud trefniadau addas. Os felly, does dim modd rhyddhau'r Awdurdod Lleol o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth sydd wedi'i nodi yn y datganiad. Weithiau, mae'n bosibl mai cyfuno'r ddarpariaeth gan y rhieni a'r Awdurdod Lleol yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion y plentyn.

Mae modd i rieni plentyn sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref ac sydd heb ddatganiad anghenion addysgol arbennig ofyn i'r Awdurdod Lleol gynnal asesiad statudol o anghenion addysgol y plentyn. Caiff hyn ei wneud o dan Adran 328 neu Adran 329 o Ddeddf Addysg 1996. Yng ngoleuni unrhyw asesiad o'r fath, yn ogystal ag unrhyw sylwadau gan y rhieni, mae angen i'r Awdurdod Lleol benderfynu ar y math o ddarpariaeth addysg arbennig sy'n addas ar gyfer unrhyw anawsterau dysgu posibl. Bydd yr awdurdod yn creu datganiad anghenion addysgol arbennig ac yn ei gynnal.

Dyw Adran 324(4A) o Ddeddf Addysg 1996 ddim yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdod Lleol nodi enw ysgol yn Rhan 4 y datganiad os yw rhieni'r plentyn wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer y ddarpariaeth addysgol benodol sydd wedi'i nodi yn y datganiad. Dylai'r mater yma gael ei drafod gan yr Awdurdod Lleol a'r rhieni ac, yn hytrach nag enw'r ysgol, dylai Rhan 4 nodi'r math o ysgol sy'n addas ym marn yr Awdurdod Lleol. Dylai'r datganiad fynd ymlaen i egluro bod y rhieni wedi gwneud eu trefniadau eu hunain o dan Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996. Yn ogystal â hynny, mae modd i'r datganiad roi manylion am unrhyw ddarpariaeth y mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno i'w gynnig o dan Adran 319 o'r Ddeddf er mwyn helpu'r rhieni i ddarparu addysg addas i'w plentyn yn y cartref.

Mae'r Awdurdod Lleol yn glynu at ei ddyletswydd statudol i helpu rhieni/cynhalwyr wrth adolygu'r datganiad yn flynyddol. Bydd y Pennaeth Dysgu Amgen neu ei gynrychiolwr yn cysylltu â'r rhieni/cynhalwyr pan fydd hi'n amser cynnal yr adolygiad. Does dim rheidrwydd ar rieni/cynhalwyr i fynd i'r adolygiad blynyddol ac mae modd iddyn nhw gyfrannu mewn modd arall, fel llythyr, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Os caiff enw'r plentyn ei dynnu oddi ar y gofrestr mewn ysgol arbennig, rhaid i'r ysgol hysbysu'r Awdurdod Lleol cyn y gellir dileu enw'r plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol fel bod modd i'r Awdurdod Lleol sicrhau cymorth ychwanegol a chyfnod pontio didrafferth o ran manteisio ar wasanaethau. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi pob caniatâd i dynnu enw'r plentyn/person ifanc oddi ar gofrestr os yw'r cais o fewn rheswm. Unwaith i'r Awdurdod Lleol gymeradwyo'r broses o dynnu enw'r

plentyn/person ifanc oddi ar gofrestr yr ysgol, rhaid i'r ysgol wneud hynny'n syth. Wedyn, byddai'n briodol addasu Rhan 4 o ddatganiad y plentyn/person ifanc yn ôl yr angen.

Dyletswyddau Diogelu'r Awdurdod Lleol

Dylai lles a diogelwch pob plentyn sy'n cael addysg naill ai yn yr ysgol neu yn y cartref fod yn flaenoriaeth i bawb. Mae pawb yn gyfrifol am y mater yma.

Dylai penderfyniad y rhiant i ddarparu addysg yn y cartref beidio â chael ei ystyried yn ffactor sy'n peri pryder am les y plentyn. Serch hynny, efallai y bydd rhai sefyllfaoedd yn codi sy'n ennyn diddordeb gweithwyr proffesiynol ac yn peri iddyn nhw ymchwilio i'r mater. Mae modd i'r rhain fod yn sefyllfaoedd unigol neu'n gyfres o sefyllfaoedd. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd angen i swyddogion addysg ystyried p'un a ddylen nhw gydweithio â gwasanaethau ac asiantaethau eraill. Mae modd i'r sefyllfaoedd yma gynyws:

- pan fydd plentyn neu aelod o'r teulu wedi'u nodi fel rhywun sydd mewn angen
- pan fydd plentyn neu aelod o'r teulu wedi'u cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am resymau diogelu plant, a bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater yma
- pan fydd plentyn neu frawd neu chwaer ar y gofrestr diogelu plant
- pan fydd plentyn neu aelod o'r teulu wedi'u cyfeirio am resymau gofal a diogelwch, a bod y mater yn cael ei ystyried
- pan fydd plentyn yn destun gofyniad goruchwyllo
- pan fydd yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol fod y plentyn yn gynhaliwr (gofalwr)
- pan fydd neb o'r gwasanaethau cyffredinol wedi gweld y plentyn am gyfnod sylweddol o amser
- pan fydd aelod o'r cyhoedd yn nodi pryder ynglŷn â lles y plentyn
- pan fydd y teulu yn ynysu eu hunain, gan wrthod gwasanaethau a gofal iechyd cyffredinol arferol.

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2016 ac mae'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer diogelu plant. Mae wedi cyflwyno 'dyletswydd i roi gwybod' i Awdurdodau Lleol yn ogystal â diffinio 'plentyn sy'n wynebu risg'.

Rhaid i staff ym mhob rhan o'r Awdurdod Lleol, y gwasanaeth iechyd a'r heddlu rannu eu pryderon â'r Awdurdod Lleol os oes gyda nhw sail resymol dros amau fod y plentyn yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu'i niweidio, neu mewn perygl o wynebu'r pethau yma. Pan fydd yr wybodaeth yma'n dod i law, ac os yw'r Awdurdod Lleol o'r farn fod sail resymol dros amau fod y plentyn yn goddef niwed difrifol, neu mewn perygl o wneud hynny, bydd e'n rhoi ei ddyletswydd i ymchwilio i'r mater ar waith. Mae'r ddyletswydd yma yn dod o dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried gwneud cais am orchymyn asesu plentyn o dan Adran 43(1)(a) o Ddeddf Plant 1989. Dylai ymarferwyr yr Awdurdod Lleol geisio cyngor cyfreithiol gan eu hadrannau cyfreithiol cyn gwneud cais o'r fath.

Serch hynny, efallai y bydd adegau'n codi pan fydd yr wybodaeth sy'n dod i law yn galw am gamau brys gan yr Awdurdod Lleol. Mae Rhan 5 o Ddeddf Plant 1989 yn nodi'r pwerau o ran diogelu plant pan fo sail resymol dros amau fod plentyn yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu'i niweidio, neu mewn perygl o wynebu'r pethau yma. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)¹⁰.

Os bydd rhiant yn penderfynu cyflogi tiwtor, y rhieni/cynhalwyr sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y swydd. Cyfrifoldeb y rhieni yw casglu tystlythyrau priodol a chyflawni archwiliadau priodol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ('DBS')¹¹.

Rhannu gwybodaeth

Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod o bob disgybl sydd, yn ei dyb e, yn cael addysg yn y cartref. Caiff gwybodaeth, fel y rheswm dros benderfyniad y rhieni i addysgu'r plentyn gartref, ei chofnodi a'i gwerthuso bob blwyddyn lle bo'r rhieni/cynhalwyr yn rhannu gwybodaeth o'r fath. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod ansawdd yr addysg a gaiff ei ddarparu yn nodi unrhyw dueddiadau sy'n peri pryder yn y data, ac yn cymryd y camau priodol i fynd i'r afael â'r pryderon yma. Yn rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, bydd yr Awdurdod Lleol yn rhannu'r wybodaeth ganlynol gyda Llywodraeth Cymru.

- Cyfanswm nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n rhai sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref
- Dadansoddiad o rywedd ac oedran y rheiny sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Mae'r wybodaeth yn gwbl gyfrinachol ac ni chaiff rhagor o wybodaeth ei rhannu. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru², bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn helpu plant a phobl ifainc sy'n cael addysg yn y cartref, yn ogystal â'u teuluoedd, i gael gafael ar wasanaethau cyffredinol. Caiff caniatâd y rhieni a/neu'r person ifanc (os yw'r person ifanc yn 16 oed neu'n hŷn) ei geisio cyn rhannu data personol y plentyn (h.y. enw, dyddiad geni a manylion cyswllt) â sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau ei fod yn cael y cymorth, y cyngor a'r gwasanaethau y mae ganddo'r hawl i'w cael. Efallai y caiff caniatâd y rhieni ddim ei geisio os oes pryderon ynglŷn â diogelwch y plentyn/person ifanc.

Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi prosesau rhannu gwybodaeth effeithiol ar waith. Mae hyn yn cynnwys systemau, safonau a phrotocolau sydd wedi'u cytuno er mwyn rhannu gwybodaeth am blentyn a'i deulu gydag asiantaeth a rhwng asiantaethau, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Os oes pryderon ynglŷn â diogelwch neu les y plentyn neu'r person ifanc, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i rannu'r wybodaeth rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

10. Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008): http://www.ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=298

11. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau mwy diogel wrth recriwtio ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. <https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service/about>

Monitro ac adolygu'r polisi

Caiff gweithrediad y polisi yma ei fonitro gan Bennaeth y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a'i gynrychiolwr.


Caiff y polisi ei hadolygu o leiaf bob 3 blynedd. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd y newidiadau arfaethedig mewn deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a chyhoeddi canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r newidiadau yma yn arwain at adolygiad cynharach o'r polisi.

Adborth gan rieni a phlant:

Caiff adborth gan rieni/cynhalwyr a phobl ifanc ei groesawu bob amser gan Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf. Dylai'r adborth yma gael ei anfon at:

- Pennaeth Dysgu Amgen
d/o Canolfan Addysg Tŷ Gwyn
Y Dolydd, Cwmdâr,
Aberdâr, CF44 8EX
Ffôn: 01685 652525
- Pennaeth y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant
Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar, CF45 4AF
Ffôn: 01443 744364

Atodiad 1

	Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant Rhondda Cynon Taf Ffurflen Hysbysiad - Addysg Ddewisol yn y Cartref
	<p>I'w dychwelyd o fewn 10 diwrnod i dynnu enw'r disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol:</p> <p>Addysg Heblaw yn yr Ysgol, d/o Canolfan Addysg Tŷ Gwyn, Y Dolydd, Cwmdâr, Aberdâr, CF44 8EX Ffôn: 01685 652526</p>

ADRAN 1: GWYBODAETH AM Y DISGYBL

Dyddiad Hysbysu'r Rhiant/Cynhaliwr			
Enw cyntaf y disgybl:		Cyfenw'r disgybl:	
Dyddiad geni:		Rhyw:	
Enw'r rhiant (rhieni) neu'r cynhaliwr (cynhalwyr):		Perthynas â'r plentyn:	
Cyfeiriad:		Ticiwch y Cod Ymarfer priodol:	COD YMARFER: <input checked="" type="checkbox"/> Dyddiad
			Ddim ar y Cod Ymarfer
			Gweithredu gan yr Ysgol
			Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
			Datganiad
Ffôn y cartref:		Ffôn symudol:	
Ysgol:		Dosbarth Cynnal Dysgu / Prif Ffrwd:	
Grŵp blwyddyn:		Oedran:	
Tras Ethnig:		Ydy'r disgybl yn 'derbyn gofal'?	Ydy / Nac ydy (Rhowch gylch)
Prydau ysgol am ddim:	Ydy / Nac ydy (Rhowch gylch)	Iaith gyntaf	Cymraeg/Saesneg/Arall

ADRAN 2: NATUR UNRHYW ANAWSTERAU AMLWG CYN DEWIS ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF

Unrhyw anghenion/pryderon amlwg cyn dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref: (atodwch wybodaeth ychwanegol os yw'n briodol)

ADRAN 3: HANES YMYRIADAU A CHYMORTH GAN YR YSGOL

Dyddiad Ymyrraeth	Natur yr ymyrraeth	Amllder / hyd yr ymyrraeth	Gwerthuso a chynnydd

ADRAN 4: DATA ASESU

Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen	Deilliannau presennol wedi'u bodloni	Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen	Maes Cwricwlwm Cenedlaethol	Asesiad yr athro		
				Cyflawniad presennol	Diwedd lefelau CA2	Diwedd lefelau CA3
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu			Y Gymraeg (iaith gyntaf)			
Datblygiad Mathemategol			Saesneg			
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol			Mathemateg			
			Gwyddoniaeth			

Maes Asesu (Nodwch ddata o'r ddau asesiad diwethaf)		Math o asesiad	Dyddiad yr asesiad	Oed cronolegol	Sgôr safonol / canraddol	Sgôr sy'n cyfateb i oedran
Darllen Cywirdeb	Asesiad 1					
	Asesiad 2					
Darllen Dealltwriaeth	Asesiad 1					
	Asesiad 2					
Sillafu	Asesiad 1					
	Asesiad 2					
Rhifedd	Asesiad 1					
	Asesiad 2					

ADRAN 5: DATA PRESENOLDEB A GWAHARDDIADAU

Presenoldeb	Blwyddyn academaidd bresennol	Blwyddyn academaidd flaenorol
Tymor yr hydref		
Tymor y gwanwyn		
Tymor yr haf		
Cyfanswm		

Gwaharddiadau	Blwyddyn academaidd bresennol		Blwyddyn academaidd flaenorol	
	Nifer yr achosion	Nifer y diwrnodau	Nifer yr achosion	Nifer y diwrnodau
Tymor yr hydref				
Tymor y gwanwyn				
Tymor yr haf				
Cyfanswm				

ADRAN 7: NATUR UNRHYW BRYDERON O RAN DIOGELWCH CYN DEWIS ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF (DOES DIM MODD YSTYRIED Y PENDERFYNIAD I DDARPARU ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF YN BRYDER O RAN DIOGELWCH)

Unrhyw anghenion/pryderon amlwg cyn dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref: (atodwch wybodaeth ychwanegol os yw'n briodol)

ADRAN 7: YMYRRAETH ASIANTAETHAU ERAILL:

Enw	Asiantaeth	Dyddiad yr ymyrraeth ddiwethaf	Adroddiad wedi'i atodi
			Ydy / Nac ydy
			Ydy / Nac ydy
			Ydy / Nac ydy

Darparwch unrhyw fanylion eraill sy'n briodol yn eich barn chi (atodwch unrhyw wybodaeth briodol)

ADRAN 7: DATGANIADAU

Ffurflen wedi'i llenwi gan:		Swydd:	
Llofnod:		Dyddiad:	

Gwefannau defnyddiol

- Briteschool (British E-School) www.briteschool.co.uk
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru www.cssiw.org.uk
- Gyrfa Cymru www.careerswales.com
- Comisiynydd Plant Cymru www.complantcymru.org.uk/cy/
- Hawliau Plant Cymru www.hawliauplant.cymru
- Education Otherwise www.educationotherwise.net www.education-otherwise.org
- Elective Home Education Wales www.waleshomeeducation.co.uk
- Forest School Wales www.forestschoolwales.org.uk
- Home Education UK www.home-education.org.uk
- Hwb www.hwb.cymru.gov.uk
- Dysgu Cymru www.wales.gov.uk/learning
- Adaran 7 o Ddeddf Addysg 1996
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/7>
- Y Brifysgol Agored www.open.ac.uk
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru www.waspi.org
- Addysg ddewisol yn y cartref - Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol <http://gov.wales/docs/dcells/publications/160106-ehe-guidance-cy.pdf>